ATODLEN 3

# RHAN 1

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi ei diddymu gan Ddeddf 2014

### Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004

**59.** Ym mharagraff 95 (cydweithredu ag ymchwiliadau) is-baragraff (2) o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**1**) yn y diffiniad o "local authority"—

(a) ar ddiwedd paragraff (b) hepgorer "or";

(b) ar ddiwedd paragraff (c) hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder ", or";

(c) ar ôl paragraff (c) mewnosoder y canlynol—

"(d) a council of a county or county borough in Wales.".

(**1**) O.S. 2004/478 (Cy. 48), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.